



Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC mewn Digwyddiadau (Dyfarniad Technegol)

DEUNYDDIAU ASESU
ENGHREIFFTIOL

UNED 2

I'w haddysgu o 2022
I'w dyfarnu o 2024

Cynnwys

	Tudalen
Asesiad Dan Reolaeth Mewnol	
UNED 2: Cynllunio a chynnal digwyddiad	
Briff	4
Tasg Aseiniad	5
Canllaw ar reolaethau	11
Cynllun marcio	14

Uned 2: Cynllunio a chynnal digwyddiad

Aseiniad

DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

14 AWR

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Darllenwch y briff yn ofalus cyn dechrau'r aseiniad.

Byddwch yn ennill marciau am dasgau allweddol a gaiff eu cwblhau yn y ffenestr Asesu. Cyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer tasgau a asesir fydd **14 awr**. Ni chewch fwy na'r amser hwn. Mae'r amser a argymhellir wedi'i nodi ar gyfer pob tasg.

Dylai eich gwaith gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth a feithrinwyd yn ystod sesiynau addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Darllenwch y wybodaeth a thasgau'r aseiniad yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen.

Mewn tasgau ysgrifenedig, mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith chi eich hun heb gymorth neb yw'r gwaith a gynhrychir.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Bydd angen i chi a'ch athro lofnodi datganiad mai eich gwaith chi yn unig yw'r holl waith a gyflwynir.

Ni chewch drafod na rhannu unrhyw fanylion am y briff na'r tasgau.

Cynllunio a chynnal digwyddiad Brîff yr Aseiniad

Mae ysgolion yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau bob blwyddyn, o nosweithiau rhieni i ddigwyddiadau chwaraeon, cyngherddau, cynyrchiadau a digwyddiadau elusennol.

Mae pennaeth eich ysgol wedi gofyn i chi gynnal digwyddiad. Eich dewis chi yw'r math o ddigwyddiad a gynhelir. Gall fod yn ddigwyddiad a gynhelir yn flynyddol neu'n ddigwyddiad untro. Bydd hyn yn dibynnu ar eich ysgol.

Bydd angen i chi ffurfio grŵp a chydweithio â'ch gilydd fel tîm i ymchwilio, cynllunio, cynnal a gwerthuso eich digwyddiad eich hun. Er mwyn cynnal digwyddiad llwyddiannus, bydd angen gwaith cynllunio gofalus.

Caniateir gwaith grŵp i ymchwilio, cynllunio a chynnal y digwyddiad. Fodd bynnag, pan fyddwch yn cwblhau tasgau ysgrifenedig, rhaid i chi weithio'n annibynnol.

Eich tasg gyntaf fydd cynnig digwyddiad i'w gynnal yn eich ysgol. Yna, rhaid i chi gynllunio, trefnu, cynnal a gwerthuso'r digwyddiad.

Er mwyn cwblhau'r asesiad hwn, bydd angen i chi ddefnyddio eich gwybodaeth am y diwydiant digwyddiadau a feithrinwyd yn Uned 1 a chyfuno'r wybodaeth hon â phopeth rydych wedi ei ddysgu yn Uned 2.

Bydd angen i chi wneud y canlynol:

- dewis digwyddiad i'w gynllunio*
- creu cynllun cynnig digwyddiad
- creu tîm
- cynllunio a threfnu'r digwyddiad
- cynnal y digwyddiad
- gwerthuso'r digwyddiad.

*dylech wneud yn siŵr bod eich dewis yn eich galluogi i ennill marciau ym mhob un o'r tasgau ar dudalennau 5-10; gallwch drafod eich dewis o ddigwyddiad â'ch athro, ac ni fydd maint y digwyddiad yn effeithio ar eich perfformiad.

Tasg Aseiniad

Tasg 1

Cynnwys yr uned	Tasgau	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA	Marciau
2.1	1	LLUNIO CYNLLUN CYNNIG DIGWYDDIAD LLWYDDIANNUS				10
2.1.1 2.1.2 2.1.3 2.1.4 2.1.5	(a)	Amlinellwch gynllun cynnig ar gyfer digwyddiad yn eich ysgol. Cynnig wedi'i deipio/ysgrifennu. Rhaid i hwn gael ei gwblhau'n annibynnol.	1 awr	Goruchwyliaeth: Uniongyrchol Canllawiau: union Adnoddau: Ni chaniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA1	[10]

Tasg 2

Cynnwys yr uned	Tasgau		Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA	Marciau
2.2	2	CYNLLUNIO A THREFNU DIGWYDDIAD					26
2.2.1	(a)	Neilltuwch rolau o fewn eich tîm Dylech ystyried: - rolau - cyfrifoldebau - rhinweddau.	Strwythur tîm wedi'i deipio/ysgrifennu. Rhaid i hwn gael ei gwblhau'n annibynnol.	¾ awr	Goruchwyliaeth: Uniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA2	[6]
2.2.2	(b)	Lluniwch fyfyrddod ysgrifenedig o'r broses gynllunio ar gyfer eich digwyddiad. Rhaid i chi gadw cofnod o'r holl ddogfennaeth a chynnwys sut i wneud y canlynol: - cyflawni amcanion y digwyddiad - dilyn polisiau a gweithdrefnau perthnasol - diwallu anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid. Dylid cynnal cyfarfodydd tîm y tu allan i'r oriau asesu a neilltuwyd ar gyfer y dasg hon.	Adroddiad ysgrifenedig Rhaid i hwn gael ei gwblhau'n annibynnol.	1 awr	Goruchwyliaeth: Uniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA2	[8]
Bydd angen i'r 'tîm' lunio cynllun gweithredu ar gyfer y digwyddiad. Ni chaiff marciau eu dyfarnu ar gyfer hwn, ond rhaid i chi ei gyflwyno i'ch athro cyn y digwyddiad.							
2.2.3	(c)	Lluniwch gynllun gweithredu ar gyfer eich cyfrifoldebau unigol i nodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer eich digwyddiad arfaethedig. Dylech ystyried: - gwaith monitro - trefn - amseriad	Cynllun gweithredu wedi'i deipio/ysgrifennu Rhaid i hwn gael ei gwblhau'n annibynnol.	1 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA2	[12]

Tasg 3

Cynnwys yr uned	Tasgau		Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA	Marciau
2.3	3	PARATOI A CHYNNAL DIGWYDDIAD					52
2.3.1	(a)	Cynlluniwch ar gyfer eich digwyddiad. Dylech ystyried y ffactorau canlynol a all effeithio ar wasanaeth cwsmeriaid cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad: - mathau o gwsmeriaid, gan gynnwys unigolion, grwpiau a theuluoedd, oeddrannau gwahanol, ac anghenion penodol - y defnydd o dechnoleg - y defnydd o brosesau gweinyddol, dogfennau gwybodaeth am y digwyddiad ac adborth ar ôl y digwyddiad	Adroddiad ysgrifenedig, gan gynnwys dogfennau cynllunio perthnasol (adborth ar y broses archebu, ffurflenni cyfarpar). Rhaid i hwn gael ei gwblhau'n annibynnol.	1 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA2	[12]
2.3.2	(b)	Cynlluniwch ar gyfer iechyd a diogelwch a hyfforddiant staff yn eich digwyddiad. Dylech gynnwys: - cymorth cyntaf - asesu risg - trefniadau mewn sefyllfa o argyfwng - staffio ac amserlennu.	Aseiad risg o'r digwyddiad, gan gynnwys cymorth cyntaf a threfniadau mewn sefyllfa o argyfwng. Rhaid i hwn gael ei gwblhau'n annibynnol.	¾ awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir		[6]
2.3.2	(c)	Cymerwch ran yn y broses friffio yn union cyn y digwyddiad. Dylech gynnwys: - sesiwn friffio'r staff: - sefydlu - rôl benodol - paratoi ar gyfer cwestiynau cyffredin cwsmeriaid - sesiwn friffio lawn ar y digwyddiad.	Arsylwad gan yr athro ar sesiwn friffio'r staff a'r sesiwn sefydlu. Rhaid i hyn gael ei gwblhau fel gweithgaredd grŵp.	¾ awr	Goruchwyliaeth: Uniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Caniateir		[6]

2.3.3	(ch)	Cynhaliwch eich digwyddiad Dylech ddangos y canlynol: Egwyddorion a nodweddion gwasanaeth cwsmeriaid, gan gynnwys: • agwedd groesawgar a chwrtais ar bob pwynt cyswllt • eich gallu i feithrin cydberthnasau cryf â chwsmeriaid, sgiliau cyfathrebu ardderchog, ar lafar ac fel arall • eich gallu i nodi anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid a bodloni/rhagori ar y disgwyliadau hyn eich gallu i annog adborth gan gwsmeriaid; ymateb i adborth a darparu gwasanaethau a chyfleusterau i gwsmeriaid.	Cofnod Arsylwi'r Athro. Rhaid i hyn gael ei gwblhau fel gweithgaredd grŵp.	3 awr	Goruchwyliaeth: Uniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Caniateir	AA2	[28]
-------	------	---	--	-------	---	-----	------

Tasg 4

Cynnwys yr uned	Tasgau		Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA	Marciau
2.4	Gwerthuso'r digwyddiad						
	4.						32
2.4.1	(a)	Aseswch lwyddiant y digwyddiad Dylech adolygu eich digwyddiad ac ystyried y canlynol: - a wnaeth y digwyddiad gyflawni ei amcanion CAMPUS? - a wnaeth y digwyddiad fodloni'r gofynion cyllidebol? - pa mor dda y cafodd anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid eu diwallu a'u bodloni? - a wnaeth aelodau'r tîm ddilyn y polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol?	Adroddiad ysgrifenedig. Rhaid i hwn gael ei gwblhau'n annibynnol.	3 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	[6]
2.4.2	(b)	Adolygwch yr adborth gan gwsmeriaid. Dylech wneud y canlynol: - mynd i'r afael â gwelliannau ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol - coladu, arddangos a dadansoddi canlyniadau - dod i gasgliadau ar sail canlyniadau'r ymchwil.	Adroddiad ysgrifenedig. Rhaid i hwn gael ei gwblhau'n annibynnol.		Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	[14]
2.4.3	(c)	Adolygwch eich perfformiad eich hun Dylech nodi'r canlynol: - meysydd i'w gwella o ran eich rôl yn y tîm a sut y gwnaethoch ymateb i gyfarwyddiadau, delio â chwsmeriaid, a helpu i gyflawni amcanion y digwyddiad - eich cryfderau a'ch gwendidau eich hun o ran cynllunio, cydlynu a chynnal y digwyddiad.	Adroddiad ysgrifenedig neu drafodaeth wedi'i recordio â'r athro. Rhaid i'r adroddiad hwn neu'r drafodaeth hon gael ei gwblhau/chwblhau'n annibynnol.		Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	[6]

2.4.4	(ch)	Adolygwch berfformiad eraill. Dylech adolygu cryfderau a gwendidau unigolion yn eich timau. O fewn hyn, rhaid i chi: - nodi meysydd i'w gwella ar gyfer aelodau'r tîm o ran eu rolau o fewn y tîm a sut y gwnaethant ymateb i gyfarwyddiadau, delio â chwsmeriaid, a helpu i gyflawni amcanion y digwyddiad. - nodi cryfderau a gwendidau'r tîm o ran cynllunio, cydlynu a chynnal y digwyddiad.	Adroddiad ysgrifenedig. Rhaid i hwn gael ei gwblhau'n annibynnol.		Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	[6]
						Cyfanswm y marciau:	[120]

Canllaw ar reolaethau

Mae nifer o agweddau gwahanol a reolir o fewn yr asesiad mewnol o'n Dyfarniadau Galwedigaethol, sef:

- goruchwyliaeth
- canllawiau
- adnoddau
- cydweithio

Goruchwyliaeth

Mae Asesiad Dan Reolaeth Digwyddiadau Uned 2 yn cynnwys dwy lefel o oruchwyliaeth:

Uniongyrchol	Mae'r defnydd adnoddau wedi'i rhagnodi'n dynn. Rhaid i'r ganolfan sicrhau: • bod y goruchwylwr yn gallu gweld pob ymgeisydd yn glir drwy gydol y sesiwn / sesiynau) • bod deunyddiau arddangos a allai fod o gymorth yn cael eu tynnu neu eu gorchuddio • nad yw ymgeiswyr yn gallu defnyddio e-bost, y rhynggrwyd na ffonau symudol • bod ymgeiswyr yn cwblhau eu gwaith yn annibynnol • nad yw ymgeiswyr yn cyfathrebu â'i gilydd • nad oes unrhyw fath o gymorth yn cael ei roi. • rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen. Lle y caiff goruchwyliaeth uniongyrchol ei nodi, rhaid i'r ganolfan sicrhau y caiff canllawiau'r JCQ eu dilyn.
Anuniongyrchol	Nid oes rhaid goruchwyllo ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser. Rhaid i'r ganolfan sicrhau: • bod pob ymgeisydd yn cymryd rhan yn yr asesiad • bod digon o oruchwyliaeth i sicrhau y gellir dilysu'r gwaith • mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu. Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Cyfarwyddyd

Mae Asesiad Dan Reolaeth Digwyddiadau Uned 2 yn cynnwys dwy lefel o gyfarwyddyd:

Categori Cyngor/Adborth: <i>Gall athrawon:</i>		Anuniongyrchol
Adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel gyffredinol .	x	✓
Gwerthuso cynnydd hyd yn hyn a chynnig ffyrdd eang o wella.	x	x
Rhoi cyngor manwl a phenodol ar sut i wella fersiynau drafft er mwyn bodloni meini prawf asesu.	x	x
Rhoi adborth manwl ar wallau a hepgoriadau sy'n gadael ymgeiswyr heb gyfle i ddangos y gallant weithio ar eu liwt eu hunain.	x	x
Ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys darn o waith.	x	x

Cyn rhoi cymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifir uchod, rhaid i athrawon sicrhau bod darpariaeth i gofnodi'r cymorth hwn. Rhaid cofnodi manylion ar y ffurflen gofnodi a gyhoeddir gan CBAC. Rhaid ystyried yr ymyrraeth wrth farcio'r gwaith. Dylid defnyddio anodiadau i esbonio sut cafodd marciau eu cymhwyso yng nghyd-destun y cymorth ychwanegol a roddwyd. Ystyrir methu â dilyn y weithdrefn hon yn achos o gamymddwyn.

Adnoddau

Yn Uned 2, bydd yr ymgeiswyr yn ymgymryd â thasgau sy'n nodweddiadol o'r gweithle ac, felly, caniateir iddynt ddefnyddio adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio fel arfer yn yr amgylchedd hwnnw.

Mae Asesiad Dan Reolaeth Digwyddiadau Uned 2 yn cynnwys dwy lefel o reolaeth dros adnoddau.

Ni chaniateir	Ni chaiff ymgeiswyr ddefnyddio adnoddau. Ni chaiff ymgeiswyr ddefnyddio'r Rhyngrwyd. Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen. Os yw'r fanyleb yn caniatáu i ymgeiswyr ddod â'u cyfrifiaduron eu hunain neu ddyfeisiau electronig eraill i sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol, rhaid cynnal gwiriadau priodol er mwyn sicrhau y caniateir yr holl ddeunyddiau sydd wedi'u storio ar y dyfeisiau ac na ellir cael mynediad i'r rhyngrwyd.
----------------------	--

Caniateir	Mae gan ymgeiswyr yr hawl i ddefnyddio adnoddau a/neu nodiadau paratoi yn ôl cyfarwyddyd y briff neu'r arweiniad yn yr uned. Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen. Dylai canolfannau gyfeirio at fanylebau neu ganllawiau pwnc-benodol.
------------------	---

Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau CBAC Camymddwyn – canllaw i ganolfannau a chanllawiau JCQ Suspected malpractice in examinations and assessments – policies and procedures os nad ydynt yn siŵr ynghylch y camau nesaf y dylent eu cymryd.

Cydweithredu

Mae Asesiad Dan Reolaeth Digwyddiadau Uned 2 yn cynnwys dwy lefel o gyfarwyddyd:

Ni chaniateir	Ni ddylai ymgeiswyr gydweithio mewn unrhyw ffordd yn ystod y dasg.
Caniateir	Nid oes rhaid goruchwyllo ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser. Rhaid i'r ganolfan sicrhau: • bod pob ymgeisydd yn cymryd rhan yn yr asesiad • bod digon o oruchwyliaeth i sicrhau y gellir dilysu'r gwaith • mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu. Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Ailddrafftio

Caniateir ailddrafftio yn ystod yr asesiad dan reolaeth, heb adborth gan yr athro.

Amser

Cyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer tasgau a asesir yw 14 awr. Ni chaiff ymgeiswyr fwy na'r amser hwn. O ran rheolaethau amser, bydd tasgau Uned 2 yn cynnwys amseroedd a argymhellir fel arweiniad yn unig. Serch hynny, dylai canolfannau annog ymgeiswyr i gadw o fewn yr amseroedd a argymhellir ac i neilltuo digon o amser ar gyfer y gwaith hwn.

Cynllun marcio

Cyfarwyddyd

Gridiau asesu ar gyfer asesiad dan reolaeth – Uned 2

Egwyddorion marcio cyffredinol

- Marciau cyfan (nid hanner marciau na ffraciynau eraill) a ddyfernir bob amser.
- Dim ond pan fydd cwestiwn yn asesu ansawdd sillafu, atalnodi a gramadeg yn benodol fel y nodir yn y cynllun marcio y dylid barnu atebion ar sail y nodweddion hyn. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid dyfarnu marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gall ansawdd ymatebion yr ymgeisydd a welir gyfyngu ar y gallu ddefnyddio'r ystod marciau lawn.
- Dyfernir marciau yn gyfan gwbl ar sail y gofynion a ddiffinir yn y cynllun marcio. Ni ddylid dyfarnu marciau gyda throthwyon gradd na disgrifyddion gradd mewn golwg.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae'r disgrifydd ar gyfer y band yn darparu disgrifiad o lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys ystod o farciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r broses anodi, gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddydd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Safoni mewnol

Os oes mwy nag un athro mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau.

Gwahaniaethau o fewn ein cynlluniau marcio

Mae'r grid canlynol yn dangos ein man cychwyn i lunio ein cynlluniau marcio. Defnyddir y cynlluniau marcio hyn i sicrhau y gellir gwahaniaethu rhwng ein bandiau. Defnyddir y tabl hwn fel sail i asesu pob cwestiwn ond bydd yn adlewyrchu gofynion penodol y cwestiwn.

Band Disgrifydd	AA1	AA2	AA3
Ardderchog	- Yn ymwybodol o amrediad eang o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth sydd wedi'i datblygu'n llawn ac sy'n dangos perthnasedd i ofynion y cwestiwn.	- Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso'n gyson at gyd-destun y cwestiwn/tasg. - Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol ac maent o safon uchel - Yn gallu llunio dehongliad trylwyr ac wedi'i datblygu'n llawn sy'n hollol gywir.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd effeithiol iawn. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i ddatblygu dadl effeithiol a chytbwys. - Gwerthusiad manwl ac wedi'i gyfiawnhau sy'n cynnig barn gadarn, yn arwain at gasgliadau rhesymol.
Da iawn	Defnydd effeithiol a chywir o derminoleg.		
	- Yn meddu ar amrediad o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth wedi'i datblygu'n dda sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn.	- Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso at gyd-destun y cwestiwn/tasg. - Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n effeithiol ac maent o safon uchel i ganolig. - Yn gallu llunio dehongliad datblygedig, sy'n gywir ar y cyfan.	- Yn defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd effeithiol. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl ddatblygedig, nad yw o bosibl yn gytbwys. - Gwerthusiad manwl sy'n cynnig barn gadarn ar y cyfan, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau rhesymol a thystiolaeth.
Da	Defnydd cywir o derminoleg.		

Boddhaol	- Yn cynnwys gwybodaeth gywir. - Yn dangos dealltwriaeth gadarn sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn/tasg. - Defnydd cywir o derminoleg ar y cyfan.	- Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso'n bennaf at gyd-destun y cwestiwn/tasg. - Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n briodol ac maent o safon ganolig. - Yn gallu llunio dadansoddiad cadarn sy'n gywir ar y cyfan.	- Yn defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd briodol a chadarn. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl gadarn. NEU - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl un ochrog fanwl. - Gwerthusiad sy'n cynnig rhai barnau, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau a thystiolaeth.
Sylfaenol	- Yn dangos peth gwybodaeth gywir. - Yn dangos dealltwriaeth rannol sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. - Peth defnydd o derminoleg briodol.	- Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso'n rhannol at gyd-destun y cwestiwn/tasg. - Mae'r sgiliau ymarferol o safon ganolig i isel. - Yn gallu llunio rhyw fath o ddadansoddiad sy'n dangos peth cywirdeb.	- Yn defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd briodol gan ddangos lefel gadarn o gymhwysedd ond efallai nad oes manylder. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl un ochrog. - Gwerthusiad sy'n cynnig barn a chasgliadau cyffredinol, heb fawr ddim tystiolaeth.
Cyfyngedig	- Gwybodaeth gyfyngedig gyda pheth perthnasedd i'r pwnc neu'r cwestiwn. - Prin yw'r datblygiad a welir, neu nid oes datblygiad o gwbl. - Prin iawn yw'r defnydd o derminoleg, neu ni chaiff ei defnyddio o gwbl.	- Ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth a gymhwysir at gyd-destun y cwestiwn/tasg. - Sgiliau ymarferol o safon isel. - Os oes dehongliad o gwbl, mae hwnnw'n ddehongliad syml a chyfyngedig iawn yw'r cywirdeb.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso gyda chymhwysedd cyfyngedig. - Gwerthusiad heb ei gefnogi sy'n cynnig barnau/casgliadau syml, os o gwbl.

Pan fyddwch yn edrych ar bob un o'n cynlluniau marcio, byddwch yn gweld bod pob band yn cynnwys dilyniant o ddisgrifyddion perfformiad. Mae'r disgrifyddion yn gweithio fel ysgol: o'r gris isaf, i'r uchaf. Y banc lefel is 'Cyfyngedig' yw'r disgrifydd symlaf o ran perfformiad ymgeiswyr. Mae'r disgrifyddion hyn yn datblygu drwy'r grid i'r agwedd fwy heriol ar yr amcan asesu hwnnw. Mae'n bwysig nodi na fydd pob cwestiwn yn defnyddio pob pwynt bwled a restrir yn y tabl uchod, ond dylai ymgeiswyr ddangos **pob un o'r gofynion** sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau marcio cyhoeddedig er mwyn ennill marciau llawn ar lefel benodol. Os bydd ymgeisydd yn cael marciau llawn ar lefel benodol, dylai marcwyr edrych i weld a yw'n dangos unrhyw un o'r gofynion o'r lefel nesaf i fyny hefyd. Yn aml, bydd ymgeiswyr yn cyflawni'r disgrifyddion ar un lefel, ond nid pob un ohonynt. Os felly, dylid cymhwyso egwyddor ffit orau.

Mae'r Canllaw ar Weinyddu Dyfarniadau Galwedigaethol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am sut mae'r cynlluniau marciau ar gyfer ein Dyfarniadau Galwedigaethol wedi'u llunio, gan gynnwys gwybodaeth am y defnydd o fandiau marciau ar gyfer Ardderchog, Da Iawn a Da.

Uned 2 Cynllunio a chynnal digwyddiad Cynllun marcio aseiniad

Tasg 1

Tasg 1 (a)	Amlinellwch gynllun cynnig ar gyfer digwyddiad yn eich ysgol. [10-28 marc]
Band	AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bob rhan o'r fanyleb.
4	9-10 marc Ymateb ardderchog sy'n dangos: - amrywiaeth eang o wybodaeth a dealltwriaeth fanwl a chywir o ran sut i lunio cynllun cynnig ar gyfer digwyddiad - dealltwriaeth wedi'i datblygu'n llawn sy'n dangos perthnasedd i ofynion y dasg - cynllun cynnig manwl ac effeithiol - ystyriaeth lawn o bob agwedd ar y cynigion a'r cynlluniau ar gyfer y digwyddiad - defnydd effeithiol a chywir o derminoleg.
3	6-8 marc Ymateb da sy'n dangos: - amrywiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gywir o ran sut i lunio cynllun cynnig ar gyfer digwyddiad - dealltwriaeth wedi'i datblygu'n sy'n berthnasol i ofynion y dasg - cynllun cynnig manwl - ystyriaeth o agweddau ar y cynigion a'r cynlluniau aer gyfer y digwyddiad - defnydd cywir o derminoleg.
2	3-5 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: - rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth gywir o ran sut i lunio cynllun cynnig ar gyfer digwyddiad - dealltwriaeth rannol sy'n berthnasol i ofynion y dasg - cynllun cynnig - rhywfaint o ystyriaeth o agweddau ar y cynigion a'r cynlluniau ar gyfer y digwyddiad - rhywfaint o ddefnydd priodol o derminoleg.
1	1-2 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: - gwybodaeth a dealltwriaeth gywir gyfyngedig o ran sut i lunio cynllun cynnig ar gyfer digwyddiad - fawr ddim dealltwriaeth sy'n berthnasol i ofynion y dasg - cynllun cynnig cyfyngedig - ystyriaeth gyfyngedig o agweddau ar y cynigion a'r cynlluniau - fawr ddim defnydd o derminoleg, os o gwbl.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc/heb geisio rhoi ateb.

Tasg 2

Tasg 2 (a)	Dyrannwch y rolau o fewn eich tîm Dylech ystyried: - rolau - chyfrifoldebau - rhinweddau. [6-28 marc]
Band	AA2: Cymhwyso technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.
3	5-6 marc Ymateb da iawn sy'n dangos: - gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol iawn o rolau a chyfrifoldebau unigolion o fewn y tîm mewn - rhesymu manwl ac effeithiol dros rolau a chyfrifoldebau pob aelod o'r tîm - ystyriaeth lawn o'r rhinweddau sydd eu hangen ar bob aelod o'r tîm
2	3-4 marc Ymateb da sy'n dangos: - gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol o rolau a chyfrifoldebau unigolion o fewn y tîm - rhesymu manwl dros rolau a chyfrifoldebau pob aelod o'r tîm - ystyriaeth o'r rhinweddau sydd eu hangen ar bob aelod o'r tîm.
1	1-2 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: - rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau unigolion o fewn y tîm - rhywfaint o resymu dros rolau a chyfrifoldebau pob aelod o'r tîm - rhywfaint o ystyriaeth o'r rhinweddau sydd eu hangen ar bob aelod o'r tîm.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 2 (b)	<i>Lluniwch fyfyrddod ysgrifenedig o'r broses gynllunio ar gyfer eich digwyddiad. Rhaid i chi gadw cofnod o'r holl ddogfennaeth a chynnwys sut i wneud y canlynol:</i> • <i>cyflawni amcanion y digwyddiad</i> • <i>dilyn polisïau a gweithdrefnau perthnasol</i> • <i>diwallu anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.</i> [8-28 marc]
Band	AA2: <i>Cymhwyso technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.</i>
4	7-8 marc Ymateb gwyh sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol iawn o ran sut i drefnu digwyddiad, sy'n arwain at gofnod manwl ac effeithiol o'r holl ddogfennaeth • ystyriaeth lawn o'r ffordd y gellid cyflawni pob amcan • gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol iawn o bolisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r digwyddiad • ystyriaeth lawn o'r ffordd y gellid diwallu anghenion y cwsmeriaid a bodloni eu disgwyliadau.
3	5-6 marc Ymateb da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol o ran sut i drefnu digwyddiad, sy'n arwain at gofnod manwl o'r holl ddogfennaeth • ystyriaeth o'r ffordd y gellid cyflawni y rhan fwyaf o'r amcanion • gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol o bolisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r digwyddiad • ystyriaeth o'r ffordd y gellid diwallu anghenion y cwsmeriaid a bodloni eu disgwyliadau.
2	3-4 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ran sut i drefnu digwyddiad, sy'n arwain at gofnod rhannol o'r holl ddogfennaeth • rhywfaint o ystyriaeth o'r ffordd y gellid cyflawni rhai o'r amcanion • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r digwyddiad • rhywfaint o ystyriaeth o'r ffordd y gellid diwallu anghenion y cwsmeriaid a bodloni eu disgwyliadau.
1	1-2 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o ran sut i drefnu digwyddiad, sy'n arwain at gofnod cyfyngedig o'r holl ddogfennaeth • ystyriaeth gyfyngedig o'r ffordd y gellid cyflawni amcanion • ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r digwyddiad • ystyriaeth gyfyngedig o'r ffordd y gellid diwallu anghenion y cwsmeriaid a bodloni eu disgwyliadau.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc/heb geisio rhoi ateb.

Tasg 2 (c) Lluniwch gynllun gweithredu ar gyfer eich cyfrifoldebau unigol i nodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer eich digwyddiad arfaethedig.

Dylai ymgeiswyr ystyried:

- *monitro*
- *trefn*
- *amseru.*

[12-28 marc]

Band	AA2: Cymhwyso technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.
4	10-12 marc Ymateb gwych sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol iawn sy'n arwain at gynllun gweithredu manwl ac effeithiol • ystyriaeth lawn o ran monitro'r digwyddiad. • gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol iawn o brosesau trefnu ac amseru sydd wedi'u hystyried yn llawn, sy'n arwain at gynllun clir a hawdd ei ddilyn.
3	7-9 marc Ymateb da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol sy'n arwain at gynllun gweithredu manwl • ystyriaeth o ran monitro'r digwyddiad • gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol o brosesau trefnu ac amseru sydd wedi'u hystyried, sy'n arwain at gynllun hawdd ei ddilyn.
2	4-6 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n arwain at gynllun gweithredu • rhywfaint o ystyriaeth o ran monitro'r digwyddiad • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o brosesau trefnu ac amseru sydd wedi'u hystyried yn rhannol, sy'n arwain at gynllun rhannol.
1	1-3 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig sy'n arwain at gynllun gweithredu • ychydig iawn o ystyriaeth o ran monitro'r digwyddiad • gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o brosesau trefnu ac amseru sydd wedi'u hystyried ychydig, sy'n arwain at gynllun heb ei orffen.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc/heb geisio rhoi ateb.

Tasg 3 (a)	Cynllunio ar gyfer eich digwyddiad <i>Dylai ymgeiswyr ystyried y ffactorau canlynol a all effeithio ar wasanaeth cwsmeriaid cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad:</i> <i>mathau o gwsmeriaid, gan gynnwys unigolion, grwpiau a theuluoedd, oedranau gwahanol, ac anghenion penodol</i> <i>y defnydd o dechnoleg</i> <i>y defnydd o brosesau gweinyddol, dogfennau gwybodaeth am y digwyddiad ac adborth ar ôl y digwyddiad.</i> [12-28 marc]
Band	AA2: Cymhwyso technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.
4	10-12 marc Ymateb ardderchog sy'n dangos: - gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol iawn o'r ffactorau sy'n effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid mewn digwyddiadau, gan gynnwys cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad - defnydd effeithiol iawn o dechnoleg - gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol iawn o'r defnydd o brosesau gweinyddol, dogfennau gwybodaeth am y digwyddiad ac adborth ar ôl y digwyddiad.
3	7-9 marc Ymateb da sy'n dangos: - gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol o'r ffactorau sy'n effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid mewn digwyddiadau, gan gynnwys cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad - defnydd o dechnoleg - gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol o'r defnydd o brosesau gweinyddol, dogfennau gwybodaeth am y digwyddiad ac adborth ar ôl y digwyddiad.
2	4-6 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: - rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid mewn digwyddiadau, gan gynnwys cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad - defnydd o dechnoleg - rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r defnydd o brosesau gweinyddol, dogfennau gwybodaeth am y digwyddiad ac adborth ar ôl y digwyddiad.
1	1-3 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: - gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r ffactorau sy'n effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid mewn digwyddiadau, gan gynnwys cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad - defnydd cyfyngedig o dechnoleg - gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r defnydd o brosesau gweinyddol, dogfennau gwybodaeth am y digwyddiad ac adborth ar ôl y digwyddiad.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc/heb geisio rhoi ateb.

Tasg 3 (b)	<i>Cynlluniwch ar gyfer iechyd a diogelwch a hyfforddiant staff yn eich digwyddiad.</i> <i>Dylai ymgeiswyr ystyried y canlynol:</i> • <i>cymorth cyntaf</i> • <i>asesu risg</i> • <i>threfniadau mewn sefyllfa o argyfwng</i> • <i>staffio ac amserlennu.</i> [6-28 marc]
Band	AA2: Cymhwyso technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.
3	5-6 marc Ymateb gwych sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ac effeithiol o ofynion iechyd a diogelwch digwyddiadau sy'n arwain at asesiad risg manwl • gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol o'r defnydd o gymorth cyntaf a threfniadau mewn sefyllfa o argyfwng.
2	3-4 marc Ymateb da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ofynion iechyd a diogelwch digwyddiadau sy'n arwain at asesiad risg cynhwysfawr • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r defnydd o gymorth cyntaf a threfniadau mewn sefyllfa.
1	1-2 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ofynion iechyd a diogelwch digwyddiadau sy'n arwain at asesiad risg • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r defnydd o gymorth cyntaf a threfniadau mewn sefyllfa o argyfwng.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc/heb geisio rhoi ateb.

Tasg 3 (c)	Cymerwch ran yn y broses friffio yn union cyn y digwyddiad. Dylech gynnwys: • sesiwn friffio'r staff: • sefydlu • rôl benodol • paratoi ar gyfer cwestiynau cyffredin cwsmeriaid • sesiwn friffio lawn ar y digwyddiad. [6-28 marc]
Band	AA2: <i>Cymhwyso technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.</i>
3	5-6 marc Ymateb da iawn lle mae'r ymgeisydd: • yn cyfrannu'n llawn at y broses friffio a sesiwn friffio'r staff • yn briffio'r staff yn effeithiol • yn paratoi'r staff yn llawn ar gyfer y holl gwestiynau cyffredin • yn rhoi sylw llawn i fanylder yn y sesiwn friffio lawn ar y digwyddiad.
2	3-4 marc Ymateb da lle mae'r ymgeisydd: • yn cyfrannu at sesiwn friffio'r staff • yn briffio'r staff • yn paratoi'r staff ar gyfer y rhan fwyaf o'r cwestiynau cyffredin • yn rhoi sylw i fanylder yn y sesiwn friffio lawn ar y digwyddiad.
1	1-2 marc Ymateb sylfaenol lle mae'r ymgeisydd: • yn cyfrannu'n rhannol at sesiwn friffio'r staff • yn briffio'r staff yn rhannol • yn paratoi'r staff ar gyfer rhai o'r cwestiynau cyffredin • yn rhoi peth sylw i fanylder yn y sesiwn friffio lawn ar y digwyddiad.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc/heb geisio rhoi ateb.

Tasg 3 (d) Cynhaliwch eich digwyddiad <i>Dylai ymgeiswyr ystyried dangos y canlynol:</i> <i>Egwyddorion a nodweddion gwasanaeth cwsmeriaid, gan gynnwys:</i> • <i>agwedd groesawgar a chwrtais ar bob pwynt cyswllt</i> • <i>y gallu i feithrin cydberthnasau cryf â chwsmeriaid a sgiliau cyfathrebu gwyb, ar lafar ac fel arall</i> • <i>y gallu i nodi anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid a bodloni/rhagori ar y disgwyliadau hyn</i> • <i>y gallu i annog adborth gan gwsmeriaid; ymateb i adborth a darparu gwasanaethau a chyfleusterau i gwsmeriaid.</i> <i>[24-28 marc]</i>	
Band	AA2: Cymhwyso technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.
5	24-28 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o nodweddion gwasanaeth cwsmeriaid drwy: • arddangos pob un o egwyddorion gwasanaeth cwsmeriaid drwy gydol y digwyddiad • dangos amrywiaeth eang o sgiliau sydd eu hangen i gynnal digwyddiad llwyddiannus ac ymgysylltu'n llawn â chwsmeriaid bob amser • dangos cwrteisi effeithiol iawn ar bob pwynt cyswllt • dangos gallu effeithiol iawn i feithrin cydberthnasau â chwsmeriaid • dangos sgiliau cyfathrebu effeithiol iawn, ar lafar ac fel arall • nodi anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid drwy gydol y digwyddiad, a'u diwallu a'u bodloni/rhagori arnynt yn llawn. • dangos y gallu i annog ac ymateb yn llawn i adborth gan gwsmeriaid bob amser.
4	18-23 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o nodweddion gwasanaeth cwsmeriaid drwy: • ddangos y rhan fwyaf o egwyddorion gwasanaeth cwsmeriaid drwy gydol y digwyddiad • dangos amrywiaeth o sgiliau sydd eu hangen i gynnal digwyddiad llwyddiannus ac ymgysylltu â chwsmeriaid y rhan fwyaf o'r amser • dangos cwrteisi effeithiol ar bob pwynt cyswllt • dangos gallu effeithiol iawn i feithrin cydberthnasau â chwsmeriaid • dangos sgiliau cyfathrebu effeithiol, ar lafar ac fel arall • nodi'r rhan fwyaf o anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid, a'u diwallu a'u bodloni/rhagori arnynt drwy gydol y digwyddiad • dangos y gallu i annog ac ymateb i adborth gan gwsmeriaid y rhan fwyaf o'r amser.
3	12-17 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o nodweddion gwasanaeth cwsmeriaid drwy: • ddangos rhai o egwyddorion gwasanaeth cwsmeriaid yn ystod y digwyddiad • dangos sgiliau sydd eu hangen i gynnal digwyddiad llwyddiannus ac ymgysylltu â chwsmeriaid rhywfaint o'r amser • dangos cwrteisi ar bob pwynt cyswllt • dangos y gallu i feithrin cydberthnasau â chwsmeriaid • dangos sgiliau cyfathrebu • nodi a diwallu rhai o anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid yn ystod y digwyddiad • dangos y gallu i annog a/neu ymateb i adborth gan gwsmeriaid y rhan fwyaf o'r amser.

2	6-11 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o nodweddion gwasanaeth cwsmeriaid drwy: • ddangos rhai o egwyddorion gwasanaeth cwsmeriaid yn ystod rhywfaint o'r digwyddiad • dangos rhai sgiliau sydd eu hangen i gynnal digwyddiad llwyddiannus • dangos rhywfaint o gwrteisi ar rai pwyntiau cyswllt • dangos rhywfaint o allu i feithrin cydberthnasau â chwsmeriaid • dangos rhywfaint o sgiliau cyfathrebu • nodi a diwallu rhai o anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid yn ystod rhywfaint o'r digwyddiad • dangos y gallu i annog neu ymateb i adborth gan gwsmeriaid rhywfaint o'r amser.
1	1-5 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o nodweddion gwasanaeth cwsmeriaid drwy: • ddangos nifer cyfyngedig o egwyddorion gwasanaeth cwsmeriaid yn ystod y digwyddiad • dangos sgiliau cyfyngedig sydd eu hangen i gynnal digwyddiad llwyddiannus • dangos ychydig iawn o gwrtesi ar ambell bwynt cyswllt • dangos gallu cyfyngedig i feithrin cydberthnasau â chwsmeriaid • dangos sgiliau cyfathrebu cyfyngedig • nodi a/neu ddiwallu rhai o anghenion sylfaenol cwsmeriaid yn ystod y digwyddiad • dangos y gallu i ymateb i adborth gan gwsmeriaid rhywfaint o'r amser.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 4 (a) Aseswch lwyddiant y digwyddiad

Dylai ymgeiswyr adolygu eu digwyddiad ac ystyried y canlynol:

- *a wnaeth y digwyddiad gyflawni ei amcanion CAMPUS?*
- *a wnaeth y digwyddiad fodloni'r gofynion cyllidebol?*
- *pa mor dda y cafodd anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid eu diwallu a'u bodloni?*
- *a wnaeth aelodau'r tîm ddilyn y polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol?*

[6-28 marc]

Band	AA3: Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau
3	5-6 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos asesiad da iawn o'i ddigwyddiad drwy: • resymu effeithiol gyda chysylltiadau clir rhwng yr amcanion CAMPUS a nodwyd a chyflawniadau'r digwyddiad • asesu'r gofynion cyllidebol yn effeithiol • ystyried yn llawn a lwyddwyd i ddiwallu anghenion y cwsmeriaid a bodloni eu disgwyliadau • ystyried yn llawn a wnaeth aelodau'r tîm ddilyn y polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol.
2	3-4 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos asesiad da o'i ddigwyddiad drwy: • resymu gyda chysylltiadau clir rhwng yr amcanion CAMPUS a nodwyd a chyflawniadau'r digwyddiad • asesu'r gofynion cyllidebol • ystyried a lwyddwyd i ddiwallu anghenion y cwsmeriaid a bodloni eu disgwyliadau • ystyried a wnaeth aelodau'r tîm ddilyn y polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol.
1	1-2 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos asesiad sylfaenol o'i ddigwyddiad drwy: • rywfaint o resymu gyda rhai cysylltiadau rhwng yr amcanion CAMPUS a nodwyd a chyflawniadau'r digwyddiad • asesu'r gofynion cyllidebol yn rhannol • ystyried yn rhannol a lwyddwyd i ddiwallu anghenion y cwsmeriaid a bodloni eu disgwyliadau • ystyried yn rhannol a wnaeth aelodau'r tîm ddilyn y polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc/heb geisio rhoi ateb.

Tasg 4 (b)	Adolygwch yr adborth gan gwsmeriaid. Dylai ymgeiswyr: • fynd i'r afael â gwelliannau ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol • coladu, arddangos a dadansoddi canlyniadau • dod i gasgliadau ar sail canlyniadau'r ymchwil. [14-28 marc]
Band	AA3: Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau
4	12-14 marc Ymateb gwych sy'n dangos: • dadansoddiad a gwerthusiad manwl ac effeithiol o'r adborth gan gwsmeriaid • ystyriaeth lawn o feysydd i'w gwella sy'n arwain at amrywiaeth eang o argymhellion, sy'n dangos bod yr ymgeisydd wedi myfyrio'n glir ar yr adborth • gwaith coladu, arddangos a dadansoddi manwl ac effeithiol o ran yr adborth gan gwsmeriaid • barnau clir gyda chysylltiadau perthnasol rhwng yr adborth gan gwsmeriaid a'r casgliadau a luniwyd.
3	8-11 marc Ymateb da sy'n dangos: • dadansoddiad a gwerthusiad manwl o'r adborth gan gwsmeriaid • ystyriaeth o feysydd i'w gwella sy'n arwain at amrywiaeth o argymhellion, sy'n dangos bod yr ymgeisydd wedi myfyrio ar yr adborth • gwaith coladu, arddangos a dadansoddi manwl o ran yr adborth gan gwsmeriaid • barnau gyda chysylltiadau perthnasol rhwng yr adborth gan gwsmeriaid a'r casgliadau a luniwyd.
2	4-7 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o ddadansoddiad a gwerthusiad o'r adborth gan gwsmeriaid • rhywfaint o ystyriaeth o feysydd i'w gwella sy'n arwain at rai argymhellion, sy'n dangos bod yr ymgeisydd wedi myfyrio ar yr adborth • gwaith coladu, arddangos a dadansoddi rhannol o ran yr adborth gan gwsmeriaid • rhai barnau gyda chysylltiadau rhannol rhwng yr adborth gan gwsmeriaid a'r casgliadau.
1	1-3 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • dadansoddiad a gwerthusiad cyfyngedig o'r adborth gan gwsmeriaid • ychydig iawn o ystyriaeth o feysydd i'w gwella sy'n arwain at ambell argymhelliad, sy'n dangos nad yw'r myfyriwr wedi myfyrio ar yr adborth. • ychydig iawn o waith coladu, arddangos a dadansoddi manwl o ran yr adborth gan gwsmeriaid • ychydig iawn o farnau gyda chysylltiadau cyfyngedig rhwng yr adborth gan gwsmeriaid a'r casgliadau.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc/heb geisio rhoi ateb.

Tasg 4 (c) *Adolygwch eich perfformiad eich hun*
Dylai ymgeiswyr adolygu eu perfformiad eu hunain a nodi:

- meysydd i'w gwella o ran eu rôl yn y tîm a sut y gwnaethant ymateb i gyfarwyddiadau, delio â chwsmeriaid, a helpu i gyflawni amcanion y digwyddiad*
- eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain o ran cynllunio, cydlynu a chynnal y digwyddiad.*

[6-28 marc]

Band	AA3: Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau
3	5-6 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos dadansoddiad a gwerthusiad da iawn drwy: - lunio adolygiad manwl ac effeithiol o'i berfformiad ei hun, gan nodi amrywiaeth o feysydd gwahanol i'w gwella sy'n manylu ar y ffordd y gwnaeth: - ymateb yn effeithiol i gyfarwyddiadau - delio'n effeithiol â chwsmeriaid - helpu i gyflawni holl amcanion y digwyddiad - nodi ei gryfderau a'i wendidau ei hun yn llawn mewn perthynas â phob agwedd ar y gwaith o gynllunio, cydlynu a chynnal y digwyddiad, gan ddangos dealltwriaeth fanwl ac effeithiol.
2	3-4 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos dadansoddiad a gwerthusiad da drwy: - lunio adolygiad manwl o'i berfformiad ei hun, gan nodi rhai meysydd gwahanol i'w gwella sy'n manylu ar y ffordd y gwnaeth: - ymateb i gyfarwyddiadau - delio â chwsmeriaid - helpu i gyflawni'r rhan fwyaf o amcanion y digwyddiad - nodi ei gryfderau a'i wendidau ei hun mewn perthynas ag agweddau ar y gwaith o gynllunio, cydlynu a chynnal y digwyddiad, gan ddangos dealltwriaeth fanwl.
1	1-2 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos dadansoddiad a gwerthusiad da iawn drwy: - lunio adolygiad rhannol o'i berfformiad ei hun sy'n manylu ar y ffordd y gwnaeth: - ymateb i rai cyfarwyddiadau - delio â rhai cwsmeriaid - helpu i gyflawni rhai o amcanion y digwyddiad - nodi ei gryfderau a'i wendidau ei hun yn rhannol mewn perthynas ag agweddau ar y gwaith o gynllunio, cydlynu a chynnal y digwyddiad, gan ddangos rhywfaint o ddealltwriaeth
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc/heb geisio rhoi ateb.

Tasg 4 (d) Adolygwch berfformiad eraill

Dylai ymgeiswyr adolygu cryfderau a gwendidau unigolion yn eich timau, yn arbennig:

- *nodi meysydd i'w gwella ar gyfer aelodau'r tîm o ran eu rolau o fewn y tîm a sut y gwnaethant ymateb i gyfarwyddiadau, delio â chwsmeriaid, a helpu i gyflawni amcanion y digwyddiad*
- *nodi cryfderau a gwendidau'r tîm o ran cynllunio, cydlynu a chynnal y digwyddiad.*

[6-28 marc]

Band	AA3: Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau
3	5-6 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos dadansoddiad a gwerthusiad da iawn drwy: • lunio adolygiad manwl ac effeithiol o berfformiad aelodau unigol o'r tîm, gan nodi amrywiaeth o feysydd gwahanol i'w gwella • gwneud sylwadau llawn ar y ffordd y gwnaeth aelodau'r tîm: • ymateb i gyfarwyddiadau • delio â chwsmeriaid • helpu i gyflawni amcanion y digwyddiad • nodi cryfderau a gwendidau pobl eraill yn llawn mewn perthynas â phob agwedd ar y gwaith o gynllunio, cydlynu a chynnal y digwyddiad, gan ddangos dealltwriaeth fanwl ac effeithiol.
2	3-4 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos dadansoddiad a gwerthusiad da drwy: • lunio adolygiad manwl o berfformiad aelodau unigol o'r tîm, gan nodi meysydd gwahanol i'w gwella • gwneud sylwadau ar y ffordd y gwnaeth aelodau'r tîm: • ymateb i gyfarwyddiadau • delio â chwsmeriaid • helpu i gyflawni amcanion y digwyddiad • nodi cryfderau a gwendidau pobl eraill mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r agweddau ar y gwaith o gynllunio, cydlynu a chynnal y digwyddiad, gan ddangos dealltwriaeth fanwl.
1	1-2 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos dadansoddiad a gwerthusiad sylfaenol drwy: • lunio adolygiad rhannol o berfformiad aelodau unigol o'r tîm • gwneud sylwadau rhannol ar y ffordd y gwnaeth aelodau'r tîm: • ymateb i gyfarwyddiadau • delio â chwsmeriaid • helpu i gyflawni amcanion y digwyddiad • nodi cryfderau a gwendidau pobl eraill mewn perthynas â rhai agweddau ar y gwaith o gynllunio, cydlynu a chynnal y digwyddiad, gan ddangos rhywfaint o ddealltwriaeth.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Mapio'r cwestiwn i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

Uned 2

Tasgau						Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)												Dyraniad marciau			
	Pwnc ac Adran																Cyfanswm y Marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3	
	2.1					2.2			2.3			2.4									
	2.1.1	2.1.2	2.1.3	2.1.4	2.1.5	2.2.1	2.2.2	2.2.3	2.3.1	2.3.2	2.3.3	2.4.1	2.4.2	2.4.3	2.4.4						
1a	✓	✓	✓	✓	✓												10	10			
2a						✓											6		6		
2b							✓										8		8		
2c								✓									12		12		
3a									✓								12		12		
3b										✓							6		6		
3c										✓							6		6		
3d											✓						28		28		
4a												✓					6			6	
4b													✓				14			14	
4c														✓			6			6	
4ch															✓		6			6	
Cyfanswm y marciau																	120	10	78	32	